**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/CW

9 Mai 2018

Annwyl Mick

Yn y Pwyllgor Busnes ddoe, ystyriodd y Rheolwyr Busnes unwaith eto bapur gan Arweinydd y Tŷ yn cynnig y dylid cynnal adolygiad o'r Rheolau Sefydlog gan eich Pwyllgor. Penderfynasant ganolbwyntio am y tro ar y newidiadau sydd i ddod i'r Rheolau Sefydlog a fydd yn ofynnol i weithredu'r ddarpariaeth ynghylch craffu ar is-ddeddfwriaeth ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Bydd hyn yn cynnwys ailddechrau trafodaeth ar y gwahaniaeth barn rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylai argymhellion y pwyllgor sifftio fod yn rhwymol. Fel y gwyddoch, gellir cyflwyno cynigion i'r Cynulliad ar gyfer newidiadau i'r Rheolau Sefydlog drwy benderfyniad mwyafrif syml (drwy bleidlais wedi'i phwysoli) gan y Pwyllgor Busnes, ond mae angen cefnogaeth gan ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn y Cyfarfod Llawn i'w weithredu.

Fel rhan o'u trafodaethau, bu'r Rheolwyr Busnes yn ystyried maint eich Pwyllgor. Roeddent yn cydnabod manteision y ffordd amhleidiol yr ydych chi a'ch pwyllgor rhagflaenol wedi gallu gweithredu'n llwyddiannus gyda nifer fechan o Aelodau ac heb gydbwysedd rhwng y pleidiau. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo, pe bai rôl y Pwyllgor yn ehangu i gynnwys gwaith sifftio a chraffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol (fel yr ydych wedi nodi eich bod yn dymuno'i wneud), efallai y bydd angen i'r aelodaeth newid.


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu'ch sylw at hyn yn ffurfiol ac i ofyn am unrhyw farn sydd gennych chi a'ch Aelodau ar y mater hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 25 Mai.

Bydd y Pwyllgor Busnes yn dychwelyd at y mater o adolygiad ehangach o'r Rheolau Sefydlog maes o law, ar ôl i ni ymdrin â'r heriau cynharach sy'n gysylltiedig â chraffu ar Brexit.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd
Cadeirydd, y Pwyllgor Busnes